

CYPE(5)-24-19 - Papur i'w nodi 4

Kirsty Williams AC/AM
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our Ref: MA(P)/KW/2264/19

Lynne Neagle AC
Cadeirydd
Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA
SeneddCYPE@assembly.wales

19 Gorffennaf 2019

Annwyl Lynne,

Wrth i'ch Pwyllgor graffu ar y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru), gwnaed ymrwymiad i ddarparu diweddariadau rheolaidd ar y rhaglen i drawsnewid y system Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Mae'r llythyr hwn yn cynnwys y seithfed diweddariad o'r fath.

1. Deddfwriaeth a chanllawiau statudol

Ar 14 Mehefin, cyhoeddais [ddatganiad ysgrifenedig](#) ar yr ymgynghoriad ar y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) drafft a'r rheoliadau cysylltiedig arfaethedig, ynghyd â chrynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, crynodeb o'r adborth o ddigwyddiadau ymgysylltu â phlant, pobl ifanc a rhieni a chrynodeb o'r adborth o ddigwyddiadau rhanbarthol i randdeiliaid. Gellir gweld yr holl adroddiadau cryno yma:

https://llyw.cymru/cod-anghenion-dysgu-ychwanegol-drafft?_ga=2.250620742.17845519.1563364933-1953556150.1490090080

Derbyniwyd cyfanswm o 644 o ymatebion ysgrifenedig, gan gynnwys rhai mewn ymateb i'r ddogfen ymgynghori i blant a phobl ifanc a'r ddogfen ymgynghori hawdd ei deall.

Gofynnodd y brif ddogfen ymgynghori am adborth ar 65 o gwestiynau a oedd yn cwmpasu'r pum thema ganlynol; y Cod ADY drafft; rheoliadau drafft ar gyfer Tribiwnlys Addysg Cymru; rheoliadau drafft ar gyfer Cydlynwyr ADY; plant sy'n derbyn gofal; ac effaith y cynigion.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Cododd yr ymatebwyr nifer o faterion y mae angen ystyried pob un ohonynt yn fanwl er mwyn penderfynu pa newidiadau y gall fod eu hangen. Mae'r dasg o ddadansoddi'r ymatebion yn un enfawr ond credaf ei bod yn holl bwysig er mwyn sicrhau y caiff yr amrywiaeth o safbwyntiau a fynegwyd gan ein rhanddeiliaid eu defnyddio i ddatblygu a mireinio'r Cod ADY drafft a'r rheoliadau arfaethedig. Mae'r gwaith hwn yn allweddol o ran helpu i sicrhau ein bod yn creu Cod sy'n galluogi'r rhai sy'n gweithio gyda dysgwyr ag ADY i ddeall eu rolau a'u cyfrifoldebau'n drylwyr o ran cyflwyno'r system newydd a gwella deilliannau addysgol i rai o'n plant a'n pobl ifanc mwyaf difreintiedig, ac i ymroi i hynny yn llwyr.

Nodir y rhesymeg dros newidiadau yn y memoranda esboniadol a gyhoeddir pan gaiff fersiynau drafft diwygiedig o'r Cod ADY a'r amrywiol reoliadau eu cyflwyno ger bron y Cynulliad i'w cymeradwyo.

2. Gweithredu / cymorth trosglwyddo

Cyflwynodd yr Arweinwyr Trawsnewid ADY gyfres o ddogfennau i grynhoi'r gweithgareddau trawsnewid a gynhaliwyd yn eu priod ranbarthau yn ystod 2018-19. Adolygwyd y dogfennau gan swyddogion ac maent yn fodlon bod cynnydd da yn cael ei wneud wrth baratoi'r rhanbarthau i roi'r Ddeddf ar waith.

Gan adeiladu ar y gweithgareddau a gynhaliwyd yn 2018-19, mae'r Arweinwyr Trawsnewid wedi cyflwyno eu cynlluniau gweithredu rhanbarthol drafft ar gyfer 2019-20. Bydd swyddogion yn cyfarfod â'r Arweinwyr Trawsnewid yn unigol yn ystod y misoedd sydd i ddod er mwyn cwblhau'r fersiynau terfynol o'r cynlluniau hyn.

Cynhaliwyd rownd gyntaf y cyfarfodydd i adolygu'r cynnydd a wnaed mewn perthynas â'r rhaglen i drawsnewid y system ADY ledled Cymru ym mhob ardal ranbarthol. Canolbwyntiodd y cyfarfodydd ar yr elfennau o'r rhaglen drawsnewid yr oedd y prif awdurdodau lleol, y consortia rhanbarthol a'r Arweinwyr Trawsnewid o'r farn eu bod yn gweithio'n dda a'r meysydd a oedd yn fwy heriol, yn eu barn nhw.

Caiff canlyniadau'r cyfarfodydd cynnydd ac adolygu eu trafod â'r Grŵp Arwain Trawsnewid. Bydd hyn yn galluogi rhanbarthau i wneud y canlynol; myfyrio ar y gwersi a ddysgwyd ers y cyfarfodydd cynnydd ac adolygu, trafod sut yr ymdrinnir â'r heriau a rhannu arfer da.

Yn y dyfodol, cynhelir y cyfarfodydd cynnydd ac adolygu ddwywaith y flwyddyn, a bwriedir cynnal y rownd nesaf yn ystod yr hydref.

3. Datblygu'r gweithlu

Rydym yn buddsoddi mewn meithrin sgiliau'r gweithlu addysg er mwyn helpu i roi'r fframwaith deddfwriaethol newydd ar gyfer ADY ar waith a chyfrannu at amcanion cyffredinol y diwygiadau ym maes ADY. Gan weithio gyda'n pum Arweinydd Trawsnewid ADY, rydym yn rhoi pecyn cynhwysfawr ar waith i hyfforddi, meithrin sgiliau craidd a chynnig datblygiad proffesiynol parhaus i bob ymarferydd.

Fel rhan o'r gwaith hwn, rydym yn datblygu darpariaeth dysgu proffesiynol benodol ar gyfer Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol a fydd yn ymgymryd â rôl arweinyddiaeth


strategol o dan y system newydd ac yn gweithredu fel y pwynt cyswllt cychwynol ar gyfer cyngor ac arweiniad proffesiynol. Ymgymerir â'r gwaith o ddatblygu a gweithredu'r ddarpariaeth ddysgu hon fel prosiect unigol ac mae gwaith yn mynd rhagddo i benodi Rheolwr Prosiect er mwyn llywio'r rhaglen waith hanfodol hon y bydd ganddi broffil uchel.

Bydd myfyrwyr ar raglenni Addysg Gychwynol Athrawon yn chwarae rhan hanfodol wrth roi'r system ADY newydd ar waith. Felly, rydym yn gweithio gyda phrifysgolion i'w helpu i sicrhau bod adnoddau a chyfleoedd dysgu ar gael iddynt ym maes ADY, gan wella'r prif raglenni astudio a gynigir o fewn Addysg Gychwynol Athrawon. Gan weithio drwy Gyngor y Prifysgolion ar gyfer Addysgu Athrawon Cymru, byddwn yn datblygu deunyddiau sy'n wirfoddol a/neu'n helpu i gyfoethogi profiad myfyrwyr. Rhagwelir y bydd y deunyddiau hyn yn barod i'w defnyddio o fis Medi 2020. Er na chaiff yr hyfforddiant ei achredu o'r cychwyn, byddwn yn anelu at sicrhau ei fod yn rhan o'r ddarpariaeth hyfforddiant achrededig pan gaiff y maes llafur presennol ei adolygu.

4. Codi ymwybyddiaeth

Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu Eliesha Cymru i ddatblygu deunyddiau hyfforddi a deunyddiau codi ymwybyddiaeth mewn perthynas ag ADY. Bydd y deunyddiau hyn wedi'u rhannu'n bedair "lefel", gyda phob lefel yn targedu gwahanol ymarferwyr. Bydd y lefel gyntaf a gyhoeddir yn cynnwys cyfres o fideos byr wedi'u hanimeiddio a fydd yn anelu at godi ymwybyddiaeth. Cânt eu cyhoeddi ar Hwb a byddant wedi'u hanelu at arweinwyr â chyfrifoldeb corfforaethol neu statudol mewn perthynas â'r Ddeddf, megis aelodau etholedig, Prif Weithredwyr, penaethiaid Sefydliadau Addysg Bellach, penaethiaid ysgolion a chyrff llywodraethu. Disgwylir i'r fideo cyntaf gael ei ryddhau yn ystod yr hydref, ac y caiff cyfres o fideos wedi'u hanelu at wahanol sectorau eu rhyddhau yn ystod y misoedd canlynol.

Yn gywir,



Kirsty Williams AC/AM
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education